

Pamffled y Tymor

Gaeaf & Gwanwyn

THEATR BRYCHEINIOG

2026

Ionawr - Ebrill

www.brycheiniog.co.uk

Swyddfa Docynnau: 01874 611 622

Theatr Brycheiniog Cyf, Canal Wharf, Aberhonddu, Powys, LD3 7EW

Rhif elusen 1005327



CROESO

Welcome



Yng nghalon Bannau Brycheiniog, ar lan basn camlas hardd Mynwy ac Aberhonddu, mae Theatr Brycheiniog yn lle cynnes a chroesawgar, sy'n cynnig rhaglen uchelgeisiol o berfformiadau a digwyddiadau proffesiynol a chy-

munedol. Mae cynrychiadau amrywiol a phoblogaidd Theatr Brycheiniog yn denu cynulleidfaoedd rheolaidd o Aberhonddu, de Powys a phob cwr o Gymru a Phrydain.

CEFNOGI

Wyddech chi ein bod ni'n elusen gofrestredig?



Gallwch wneud cyfraniad drwy ein gwefan, drwy ddod yn Gyfaill neu Noddwr (gweler tudalen 14), drwy ein blwch rhoddion yn y cyntedd neu drwy rodd neges destun.

Rhif elusen 1005327

CYFRANNU TRWY NEGES DESTUN

I roi drwy neges destun, tecs-tiwch y gair **THEARTB** ac yna faint eich rhodd at **70450**.

Texts will cost the donation amount plus one standard network rate message. Diolch

Shwmae/Hello

Mae mis Ionawr 2026 yn gweld Theatr Brycheiniog yn dechrau Blwyddyn Newydd gyda Phrif Weithredwrnewydd.

Rydyn ni wrth ein bodd o allu croesawu Sara St George i Aberhonddu. Mae gan Sara dros 20 mlynedd o brofiad uwch fel arweinydd, gan gynnwys 15 mlynedd fel Dirprwy Brif Weithredwr yn Lighthouse Arts and Entertainment Poole – un o'r canolfannau mwyaf o'i fath y tu allan i Lundain. Dyma gyfarch Sara mewn tymor sy'n rhoi pwyslais mawr ar ein partneriaid cymunedol, gyda'r Westenders, Ffederasiwn Clybiau Ffermwyr Ifanc Brycheiniog ac Ysgol Uwchradd Gwernyfed yn dod â phanto, drama a sioeau cerdd i'r llwyfan. Mae Cerddorfa Opera Cenedlaethol Cymru, Cwmni Dawns

Richard Chappell a Hijinks, o'r sector broffesiynol yng Nghymru, oll yn ailymweld â ni. Yn ogystal ceir yr hen ffefryn Talon, sioe gomedi i'r teulu a sioe jyglo gan Darryl Carrington yn ystod hanner tymor Chwefror, a JohnPower (Cast a The Las) a'r cyntaf o gyfres gomedi newydd gyda chlybiau comedi Chuckl wrth i Milton Jones ymweld ym mis Mawrth. Ychwanegwch at hynny Susie Dent, Gŵyl Ffilmiau Mynydd Banff, a llond llaw o ddangosiadau'r National Theatre a'r Bale a'r Opera Brenhinol, ac mae'n addo bod yn dymor â sangiad sionc!

Nic Young
Cyfarwyddwr Dros Dro

Rhestrir sioeau yn nhrefn eu dyddiad, a'u lliwio yn ôl genre. Ceir yr allwedd ar gyfer pa liw yw pa genre isod.

SGRINIO BYW

CYMUNED

THEATR & SIOEAU CERDD

TEULUOEDD AC YSGOLION

CERDDORIAETH FYW

DAWNS

FFLIMIAU A DARLITHIAU

COMEDI

Sganiwch gyda'ch ffôn clyfar i ymweld â'n gwefan.




Talon: The Best of The Eagles

Mae Talon wedi codi o ddechreuadau distadl i ddod yn un o'r sioeau teithiol the-atrig mwyaf llwyddiannus ym Mhrydain, a bydd BUSY BEING FABULOUS '25/26 yn cynnwys goreuon yr Eagles unwaith eto, caneuon diamsr fel Hotel California, Take It Easy, One Of These Nights, Take It To The Limit, Desperado, Lyin' Eyes, Life In The Fast Lane a llawer mwy. Mae'r band saith darn hwn, a edmygir gan eu cyfoedion, a'u caru gan eu cefnogwyr, yn ffenomenon o safon ryngwladol.



Sad 10 Ion | 7.30pm

Tocynnau £28.75 + Ffi Archebu



Royal Ballet & Opera La traviata

Yr un mor agos-atoch â moethus, mae La Traviata'n cynnwys rhai o alawon enwocaf opera, ac mae'n gerbyd serenennu ar gyfer prif ran y soprano, a genir gan Ermonela Jaho. Ym myd y cyfarwyddwr Richard Eyre o fawredd deniadol, mae'r harddwch tyner a dinistriol sydd wrth galon opera Verdi'n pefrio'n llachar.

Mer 14 Ion | 6.45pm


Tocynnau £17.50 + Ffi Archebu
Gostyngiadau ar gael

ORIEL

Lefel 2

Gwybodaeth am
Arddangosfeydd
Tudalen 18

Mae ein horiel yn arddangos a dathlu gwaith celf a wnaed gan aelodau o'n cymuned gan gynnwys ysgolion, grwpiau ieuenctid a chymunedau celf. Ewch i'n gwefan neu galwch ein Swyddfa Docynnau i ddysgu am yr arddangosfeydd a gweithgareddau celf weledol diweddaraf, neu i holi am gynnal arddangosfa.



The Westenders: Goldilocks and the Three Bears

Mae'r Westenders yn ôl gyda sbloet arall yn llawn o hwyl ar gyfer y teulu cyfan! Rôl-yp, rôl-yp!

Mae Syrcas Fandango wedi dod i dref Wrinkleybottom! Acrobati-aid, dofwr llwod, eliffantod, campwyr trapîs, clowns...! Wel, un clown a dweud y gwir, a fawr ddim arall. Raid i'r Fonesig Felicity Fandango a'i meibion geisio dod o hyd i berfformwyr newydd cyffrous ar gyfer eu syrcas deuluol lesg, neu bydd popeth yn cael ei golli! Yn y cyfamser, mae Goldilocks yn dianc oddi wrth ei gwarchodwyr, Kateria a Victor D'Evil. Pam? Am eu bod nhw'n filain, wrth gwrs! Mae hi'n mentro i berffedion y goedwig wyllt a darganfod bwthyn bach... Ond beth sy'n digwydd wedyn? Gwell i chi ddod i weld!

Gwe 23 Ion | 7pm
Sad 24 Ion | 12pm & 5pm
Sul 25 Ion | 12pm & 5pm

Maw 27 Ion | 7pm
(BSL Performance)

Mer 28 Ion | 7pm
Iau 29 Ion | 7pm
Gwe 30 Ion | 7pm
Sad 31 Ion | 1pm & 6pm

Tocynnau £19 + Ffi Archebu



Brecknock YFC
77th Annual
Entertainment, Junior
Drama Festival &
One Plus Festival

Brecknock YFC
CF11 Brycheiniog

CYMUNED

Brecknock YFC Drama Festival

Llu 9th Chw - Gwe 13th Chw | 7pm
Tocynnau £13.50 + Ffi Archebu

Sad 14th Chw | 6.30pm
Tocynnau £18.50 + Ffi Archebu

Ymunwch â ni am wythnos hwyliog yn llawn o chwerthin, creadigrwydd ac ysbryd cymunedol wrth i Glybiau Ffermwyr Ifanc Brycheiniog gyflwyno'u Hwythnos Wyl Flynyddol - uchafbwynt yng nghalendr y sir a digwyddiad sy'n gwerthu pob tocyn bob tro!

Drwy gydol yr wythnos bydd clybiau CFfl o bob cwr o Frycheiniog yn dod i'r llwyfan i ddangos eu doniau mewn Adloniant, Dramâu lau, a Chystadlaethau Hŷn ac lau Un Plws. Gall cynulleidfaoedd edrych ymlaen at berfformiadau gwych, digon o chwerthin ac eiliadau twymgalon wrth i aelodau gystadlu am wobrau fel Perfformiwr Gorau dan 16 a Drama a Gyfansoddwyd Orau.

Bydd yr wythnos yn gorffen mewn steil gyda Noson Gala syfrdanol, ble daw'r buddugwyr yn ôl i'r llwyfan am un noson olaf o ddathlu ac adloniant i'r teulu oll.

Ymlaciwch a mwynhewch swper cyn eich sioe...

Bwydlen Gyda'r Hwyr
Yn cael ei gweini ar nosweithiau sioeau a digwyddiadau arbennig

Platiau Antipasti
Ar gael i'w harchebu ymlaen llaw




SGRINIO BYW

National Theatre Live Hamlet

gan William Shakespeare
Cyfarwyddwr Robert Hastie

Yr enillydd gwobr Olivier Hiran Abeysekera (Life of Pi) yw Hamlet yn y dehongliad eofn, cyfoes hwn ar drasiedi enwog Shakespeare.

Wedi'i ddal rhwng dyletswydd ac amheuaeth, a'i amgylchynu â grym a baint, mae'r Tywysog Hamlet ifanc yn mentro gofyn y cwestiwn eithaf - fe wyddoch pa un.

Dirprwy Gyfarwyddwr Artistig y National Theatre Robert Hastie (Standing at the Sky's Edge, Operation Mincemeat) sy'n cyfarwyddo'r ailddychmygiad llym, steilsh a thywyll o ddoniol hwn.

Iau 19th Chw | 7pm
Tocynnau £17.50 + Ffi Archebu
Gostyngiadau ar gael



TEULUOEDD AC YSGOLION


Daryl Carrington Out of the Box

Mae Out of the Box yn sioe gomedi syrcas, sy'n gweld cymeriad annisgwyl a'i flwch yn dod â chynulleidfaoedd ynghyd mewn rhyfeddod llawen, heb i neb wybod beth i'w ddisgwyl nesaf. Bob tro yr agorir y bocs, daw rhywbeth newydd allan - triciau, troeon, a chyffleoedd doniol i gyfrannu - ond peidiwch â phoeni, y peth sy'n bwysig i Darryl yw eich bod chi'n gadael y llwyfan yn teimlo fel seren y sioe (does neb yn cael sbort am ei ben yma!)

Mae'r cyfan yn cael ei gyflwyno drwy glornio dileferydd, a daw gwrthrychau cyffredin yn rhyfeddol dan ddwylo Darryl - ac mae'r ymateb y mae'n ei gael o frwsh dannedd ynyr uchafbwynt yn anhygoel!

Mae'r sioe'n ddathliad llawen o CHWARAE drwy gydol eich bywyd, waeth beth fo eich oedran, gan ddod â'r cenedlaethau ynghyd drwy ffwlbrï gwirioneddol grefftus.

Gwe 20th Chw | 2pm
Tocynnau £12.50 + Ffi Archebu



GWERNYFED HIGH SCHOOL
PRESENTS
Footloose
THE MUSICAL
THEATR BRYCHEINIOG

CYMUNED

Gwernyfed High School: Footloose

Paratowch i ddiosg eich esgidiau Sul! Yn dilyn llwyddiant rhagorol sioe, Fame, y llynedd, mae Ysgol Uwchradd Gwernyfed wrth ei bodd i gyhoeddi cynhyrchiad 2026 o Footloose.

Yn llawn egni, cyffro a holl hud twymgalon y sioe gerdd eiconig hon, dyma sioe sy'n sicr o godi gwên, eich codi ar eich traed i ganu a bloeddio. Dyma un cynhyrchiad ysgol na fyddwch chi'n bendant ddim am ei golli.

Mer 25th Chw - Gwe 27th Chw | 7pm

Tocynnau £16 + Ffi Archebu



SGRINIO BYW

Royal Ballet & Opera Giselle

Mae cynhyrchiad Peter Wright o 1985 o'r bale Rhamantaidd hanfodol hwn yn glasur yn rhaglen y Bale Brenhinol. Gyda chyfeiliant sgôr atgofus Adolphe Adam, a chynlluniau atmosfferig John Macfarlane, mae Giselle yn dwyn i fodolaeth fydoedd daearol ac arallfydol mewn chwedl am gariad, brad a gwaredigaeth.

Maw 3rd Maw 7.15pm

Tocynnau £17.50 + Ffi Archebu
Gostyngiadau ar gael



DARLITHIAU

Sir John Lloyd Lecture

Mae'r olwg newydd hon ar y 'Daith Gymreig' yn ystyried sut y daeth y 'picturesque' a'r ymarferol benben â'i gilydd yn yr adroddiadau amaethyddol a gomisiynwyd gan y llywodraeth yn y 1790au. Archwiliad o Sir Frycheiniog uwchlaw'r ddaear ac oddi tano.

Traddodir y ddarlith gan yr Athro Mary-Ann Constantine

Fri 13th Mar 7pm

Digwyddiad am ddim gyda thocynnau – rhaid archebu ymlaen llaw.



FFLIMIAU A DARLITHIAU


Banff Mountain Film Festival World Tour 2026 – Red Film Programme

Mae Gŵyl Ffilmiau Mynydd Banff yn cynnwys casgliad newydd sbon o ffilmiau byrion yn llawn o deithiau eithafol, cymeriadau gwyllt a sinematograffi deniadol! Ymunwch â gwneuthurwyr ffilmiau antur a cheiswyr antur mwyaf y byd wrth iddyn nhw ddringo, sgïo, rhwyfo a reidio i gilfachau gwylltaf y byd!

Gyda chyfle i ennill gwobrau am ddim, dyma ddigwyddiad na ddylid mo'i golli gan ŵyl mynyddoedd fwyaf pwysig y byd – yn sicr o danio eich angerdd dros antur, gweithredu a theithio!

Gwe 6th Maw | 7.30pm

Tocynnau £17.50 + Ffi Archebu
Gostyngiadau ar gael



THE WEIRD AND WONDERFUL TALENTS OF THEATR WILDCATS

CYMUNED

Mer 11th Maw | 7pm
Tocynnau £8.50 + Ffi Archebu

Theatr Wildcats: Contrasting Worlds of Talent

Croeso i'r sioe dalent wylltaf a welodd dyn erioed – Sbloet Dalent Fyd-eang Flynyddol Rhif 73! Yn y flwyddyn 3000, mae talent yn werthfawr, mae'r hyn sydd i'w goll'n wallgo, ac mae'r sgiliau... wel, yn lloerig. O gonsurwyr sombi i "nofwyr" cydamserol ar dir sych, a goroeswyr trawma-geifr Shakesperaidd, mae'r sioe hon yn rhoi pinllawen yn y chwiw sioeau talent gan ddathlu doniau beunyddiol sydd wir yn peri fod bywyd yn pefrio ar yr un pryd. Wrth i'r beirniaid golli rheolaeth, a'r perfformwyr ddarganfod eu lleisiau, mae'r sbloet yn troi'n deyrnged lawen i garedigrwydd, creadigrwydd a chymuned. A rhaid i ninnau holi beth yw talent? Doniol iawn. Gwyllt. Syndod o deimladwy. Dyma sioe ble mae dawn pawb yn cyfri – ac mae'r byd yn well o ganlyniad. Mae Theatr Wildcats yn gwmni cynhwysol sy'n cydweithio i greu gweithdai o gwmpas straeon gan ddefnyddio profiad personol, caneuon, drama a symud.



SGRINIO BYW

National Theatre Live The Audience

Gan Peter Morgan
Cyfarwyddwr Stephen Daldry

Yn dychwelyd i sinemâu am y tro cyntaf ers dros ddegawd, Helen Mirren yw'r Frenhines Elizabeth II yn y cynhyrchiad llwyddiannus hwn a enillodd wobrau Olivier a Tony Award® dan gyfarwyddyd Stephen Daldry.

Am 60 mlynedd, cyfarfu'r Frenhines Elizabeth II â phob un o'i 12 prif weinidog mewn cyfarfod wythnosol preifat. Enw'r cyfarfod hwn yw The Audience. O Winston Churchill i Margaret Thatcher a David Cameron, bu'r Frenhines yn cyngori'i phrif weinidogion ar faterion cyhoeddus a phersonol, Drwy gyfrwng y cyfarfodydd preifat hyn, cawn gipolwg ar y fenyw sy'n gwisgo'r goron, a thystio i enydau a ffurfiodd deyrn.

Iau 12th Maw | 7pm

Tocynnau £17.50 + Ffi Archebu
Gostyngiadau ar gael



Richard Chappell Dance: Amplify Mwyhau

Iau 19th Maw | 8pm

Tocynnau £12 + Ffi
Archebu
Gostyngiadau ar gael

Yn cyflwyno noson ddawns gyfoes o safon fyd-eang, gan roi sylw i rai o leisiau coreograffig mwyaf cyffrous Cymru a dathlu cymuned ddawns leol fywiog Aberhonddu.

Yn greiddiol i'r rhaglen ceir darn o gynhyrchiad diweddaraf y cwmni, Us Folk, archwiliad grymus o gymuned a thraddodiadau gwerin, sy'n dod yn fyw yn asiad nodweddiadol Chappell o fale, dawns gyfoes a gwaith byrffyr, a osodir dros sgôr drawiadol gan y ddeuawd gerddoriaeth electronig o Gaerdydd, Larch. Mae'r perfformiad arbennig hwn yn Theatr Brycheiniog o waith a grëwyd ym Mhowys yn cynnwys cydweithio unigryw gyda Chôr Meibion Aberhonddu.

Mae'r noson hefyd yn cynnwys gwaith newydd gan ddau goreograffydd o Gymru, a gomisiynwyd yn arbennig drwy raglen MWYHAU | AMPLIFY Richard Chappell Dance, a pherfformiad wedi'i deilwra gan ddawnsyrwyr ifanc dawnus o Academi Ddawns Canolbarth Cymru.

Hijinx, in association with Blind Summit, presents Meet Fred

Ddeng mlynedd, dros ugain o wledydd, a di-ri o chwerthin yn ddiweddarach, mae Meet Fred yn ôl! Mae'r ddychan dywyll o ddoniol hon, sydd wedi ennill clod rhyngwladol, yn dilyn Fred - pyped sy'n brwydro am ei annibyniaeth wrth i'w Lwfans Byw Pyped ddod dan fygythiad. Golwg chwerthinllyd o wrthryfelgar ar ficrocratiaeth, hawliau anabledd, a'r hyn y mae'n ei olygu i fod yn ddynol.

Yn cynnwys iaith gref a noethni pyped.

"MINIOG, DONIOL AC YN HYNOD DDIFYR" – Lyn Gardner, The Guardian

Mer 25th Maw | 7.30pm

Tocynnau £16 + Ffi Archebu
Gostyngiadau ar gael



CERDDORIAETH FYW

The Band of The Prince of Wales: St David's Concert

Cysylltiadau Celtaidd.

Ymunwch â ni am noson fythgofiadwy i ddatlu treftadaeth gerddorol gyfoethog y cenedloedd Celtaidd. Daw Cysylltiadau Celtaidd â melodïau bywiog, harmonïau hiraethus a rhythmau grymus ynghyd o Gymru, yr Alban, Iwerddon a Chernyw, yn fyw ar lwyfan Theatr Brycheiniog.

O alawon atgofus i ganeuon gwerin cyffrous, mae'r cyngerdd arbennig hwn yn arddangos dyfnder ac amrywiaeth cerddoriaeth Geltaidd, gan blethu ynghyd draddodiadau hynafol a steil cyfoes. P'un ai ydych chi wedi dwlu ar y diwylliant Celtaidd erioed, neu ond nawr yn dod ar ei draws, mae'r perfformiad hwn yn addo dyrchafu, ysbrydoli a diddanu. Profwch yr hudoliaeth, yr egni a'r chwedleua sy'n diffinio'r sain Geltaidd – fan hyn ynghanol Aberhonddu.

Iau 26th Maw | 7.30pm

Digwyddiad am ddim



CERDDORIAETH FYW

Gwe 27 Maw | 7.30pm
Tocynnau amrywiol

VIP Meet & Greet £75 + Ffi Archebu
VIP £45 + Ffi Archebu
Safonol £30+ Ffi Archebu

John Power – Cast, The La’s & Me

Noson Agos-atoch Gyda’r Canwr/Gyfansoddwr John Power Cafodd John Power y brentisiaeth roc a rôl orau erioed, wrth chwarae’r bas fel crwt 18 oed ym mand The La’s. Gan ffurfio Cast yn 1991, canodd, cyfansoddodd a chwaraeoddy gitâr i un o fandiau amlycaf Britpop – gansicrhau dwy record a werthodd niferoedd platinwm, cyn dychwelyd i’r siartiau yn 2024 gyda’r ardderchog Love Is The Call. Daeth rhywfaint o waith gorau Power yn ystod ei yrfa unigol, a thrwy gydol haf 2025 ymunodd Cast ag Oasis ar eu taith o gwmpas stadiymau. Bellach mae’n amser cloriannu Britpop, y caneuon enwocaf – Alright, Sandstorm, Walkaway, Flying a mwy– yn y sioe agos-atoch hon sy’n cyfuno hoff ganeuon John â straeon gwyllt, doniol a thyner.



SGRINIO BYW

Royal Ballet & Opera

Maw 31st Maw
5.15pm

Tocynnau £17.50 +
Ffi Archebu
Gostyngiadau ar gael

Seigfried

Mae enydau o harddwch tra rhagorol a buddugoliaeth arwrol yn pefrio drwy drydedd bennod cyfres Cylch Wagner, a ddaw’n fyw dan lygad ysbrydoledig Barrie Kosky, yn dilyn ei gynrychiadau

syfrdanol o Das Rheingold (2023) a Die Walküre (2025). Andreas Schager, yn ei ymddangosiad cyntaf, hîrddisgwyliedig gyda’r Opera Brenhinol, sy’n serennu fel yr arwr Siegfried, ochr yn ochr â Chrwydryn cawraidd Christopher Maltman,

Mime dichellgar Peter Hoare, a Brünnhilde ddisglair Elisabet Strid. Antonio Pappano yw’r arweinydd, sy’n llwyddo i ddwyn tensiynau di-sôn-amdanynt a chyfriniaeth arallfydol o sgôr ddeinamig Wagner.



Chuckl. Comedy Club with Headliner Milton Jones

Paratowch ar gyfer noson fythgofiadwy o gomedi yn Aberhonddu, gyda’r unigryw Milton Jones ar frig y rhaglen, meistr y jôc un llinell a brenin arabedd swreal. Ac yntau wedi ymddangos ar Mock the Week, Live at the Apollo, a Michael McIntyre’s Comedy Roadshow, mae cyflwyniad digynnwrf Milton, a’i ‘punchlines’ chwim wedi peri ei fod yn un o gomediwyr mwyaf adnabyddus ac annwyl Prydain. Gallwch ddisgwyl chwarae clyfar â geiriau, troeon annisgwyl, a chwerthin di-baid o’r dechrau tan y diwedd. Yn ymuno â Milton bydd artistiaid amryddawn ac amlwg sy’n cynnwys rhai o’r digrifwyr gorau ar y gylchdaith heddiw, a’r cyfan dan nawdd Chuckl. – prif glwb comedi’r DU.

Sad 28th Marw | 7pm

Tocynnau £23 + Ffi Archebu



Lindisfarne

Mae’r arloeswyr gwerin-roc chwedlonol o’r 70au LINDISFARNE yn ôl gyda phum aelod sefydledig o’r band dan arweiniad yr aelod sylfaenol gwreiddiol Rod Clements yn canu, a chwarae’r mandolin, ffidil a gitâr lithro. Gyda detholiad o ganeuon bythgofiadwy fel Meet Me On The Corner, Fog On The Tyne, Lady Eleanor a Run For Home ac enw da am roi perfformiadau byw ail i ddim, mae grym. LINDISFARNE i gyffroi cynulleidfaoedd gwyliau a chyngherddau’n para mor nerthol ag erioed, ac maen nhw’n sicr o gael y dorf ar eu traed i gyd-ganu.

LINDISFARNE 2025 yw:

ROD CLEMENTS (1969-heddiw) Llais, mandolin, ffidil, gitârau
DAVE HULL-DENHOLM (1994- heddiw) Llais, gitârau
STEVE DAGGETT (1986- heddiw) Llais, allweddellau, gitârau
NEIL HARLAND Bas
PAUL SMITH Drymiau

Sad 11th Ebr | 7.30pm

Tocynnau £32 + Ffi Archebu

Iau 16th Ebr
7.30pm
Tocynnau £27 + Ffi
Archebu



The Take That Experience

Wrth i Take That ddathlu dros 30 mlynedd fel prif ‘fand bechgyn’ Prydain, mae The Take That Experience yn nodi dros ddegawd gyda’i gilydd fel band teyrnged fwyaf poblogaidd a chydabyddedig Take That. Gyda pherfformiadau lleisiol clodwiw, gwisgoedd cyfatebol gwych, a dawnsfeydd eiconig, mae The Take That Experience yn ail-greu hudoliaeth Take That yn fyw ar lwyfan gyda’u ‘Taith Oreuon’. **“Y nesaf peth i Take That” – Nigel Martin-Smith** Mae’r sioe anhygoel hon yn cynnwys yr holl ganeuon ffefryn o bob cyfnod o yrfa TakeThat, dros dair degawd – o glasuron y 90a ui’w llwyddiannau mwyaf

diweddar. Ymysg y caneuon a berfformir mae Pray, Relight My Fire, Patience, Shine, These Days, Rule The World a llawer mwy. Mae’r sioe hefyd yn cynnwys yr unigryw “Robbie Williams” sy’n dod â chaneuon fel ‘Angels’, ‘Rock DJ’, ‘Candy’ i sioe sydd eisoes yn ffrwydro gan gyffro! **“Sioe fythgofiadwy” – aelod o’r gynulleidfa** Dyma sioe y mae’n rhaid i unrhyw ffan Take That ei gweld, am fod y bechgyn nid yn unig yn rhoi noson na fyddwch chi ‘byth yn ei hanghofio’ i chi, maen nhw’n rhoi profiad The Take That Experience! **“Un gair – Anhygoel!” Russell Watson**

Susie Dent: Word Perfect

Taith newydd sbon o gwmpas gogoniannau’r iaith Saesneg gyda ‘hoff grefftwr geiriau Prydain’. Yn dilyn ei sioe lwyddiannus ‘The Secret Life of Words’, mae Susie Dent yn ôl gyda chasgliad newydd sbon o ffeithiau a straeon o fyd rhyfeddol geiriau. Ydych chi erioed wedi meddwl a oes gair i ddisgrifio mynd i’r oergell am y cant a milfed tro i chwilio am rywbeth newydd? Neu ydych chi wedi pendroni pam fod casgliad o frair yn ‘murder of crows’, tra bo tylluanod yn ‘parliament of owls’? A gynlluniwyd slang arddegwyr yn benodol i beri i ni dynnu gwallt ein pen? A faint yn union o eiriau sydd angen i ddisgrifio bod yn feddw? Gyda help enghreifftiau doniol, craff

Sad 18th Ebr | 2pm | Tocynnau £30 + Ffi
Archebu



FFLIMIAU A DARLITHIAU

a dyrys, bydd Susie yn ein diddanu a’n haddysgu gyda’i dewis o oreuon yr iaith Saesneg. Bydd Word Perfect yn ein hatgoffa fod Saesneg yn gallu bod yn iaith mor anodd ei rhag-weld, mor anwadad, ac mor llwyr hudol.



SGRINIO BYW

Royal Ballet & Opera

Maw 21st Ebr | 6.45pm

Tocynnau £17.50 + Ffi Archebu
Gostyngiadau ar gael

The Magic Flute

Mae opera ffantasiol Mozart yn pefrio yng nghynhyrchiad hudolus David McVicar, gyda chast serog sy’n cynnwys Julia Bullock fel Pamina, Amitai Pati fel Tamino, Huw Montague Rendall fel Papageno, Kathryn Lewek fel Brenhines y Nos, a Solomon Howard fel Sarastro, dan arweiniad y Ffrances Marie Jacquot, sy’n ymddangos am y tro cyntaf yn Covent Garden.

Friends & Patrons

Mae lleoliad Theatr Brycheiniog yn unigryw – yng nghesail tirweddau delfrydol Bannau Brycheiniog, ac o dan Warchodfa Awyr Dywyll gyda'r ansawdd gorau drwy Brydaïn gyfan.

Ein nod yw dathlu ein cyswllt â'r amgylchedd, felly rydyn ni wedi enwi ein cynllun tair lefel i Gyfeillion ar ôl tri chopu uchaf Bannau Brycheiniog – **Pen y Fan**, a'r **Cribyn**. Enw ein Cynllun Noddwyr yw '**Seren**' i gydnabod y Warchodfa Awyr Dywyll a'r cytserau deniadol sy'n tywynnu dros ein theatr wych.

Seren

Rhoddion dros £1000

- Cael eich enwi fel noddwr y theatr ar ein gwefan
- Taith flynyddol o gwmpas y theatr
- Pecyn aelodaeth
- Cylchlythyr tymhorol
- Gwahoddiad i lansiad y tymor
- Archebu blaenoriaeth (ar sioeau dethol)
- Gostyngiad ar bris parcio car

Cribyn

£2.50 y mis neu £30 y flwyddyn

- Wedi'i gynllunio ar gyfer pobl dan 30 oed Pecyn yn cynnwys:
- Taith flynyddol o gwmpas y theatr
 - Pecyn aelodaeth
 - Cylchlythyr tymhorol
 - Gwahoddiad i lansiad y tymor
 - Archebu blaenoriaeth (ar sioeau dethol)
 - Gostyngiad ar bris parcio car

Pen y Fan

£10 y mis neu £120 y flwyddyn

- Pecyn yn cynnwys:
- Cael eich enwi fel cyfaill y theatr ar ein gwefan
 - Gostyngiad o 5% ar bris llogi ystafell
 - Gostyngiad o 10% yn y caffi /bar
 - Taith flynyddol o gwmpas y theatr
 - Pecyn aelodaeth
 - Cylchlythyr tymhorol
 - Gwahoddiad i lansiad y tymor
 - Archebu blaenoriaeth (ar sioeau dethol)
 - Gostyngiad ar bris parcio car

Corn Du

£5 y mis neu £60 y flwyddyn

- Pecyn yn cynnwys:
- Gostyngiad o 10% yn y caffi /bar
 - Taith flynyddol o gwmpas y theatr
 - Pecyn aelodaeth
 - Cylchlythyr tymhorol
 - Gwahoddiad i lansiad y tymor
 - Archebu blaenoriaeth (ar sioeau dethol)
 - Gostyngiad ar bris parcio car



DEWCH YN
GYFAILL NEU
NODDWR
SGANIWCH
i ddysgu mwy

Dosbarthiadau

Babi B!

Mar 11am - 11.30pm

Babi B! yw grŵp gweithgaredd rhiant a phlentyn Theatr B!, sy'n cynnig rhyfeddod y theatr o oedran ifanc. Mae Babi B! yn hwyl, yn rhyngweithiol ac yn gynhwysol, gyda chaneuon a rhigymau traddodiadol i ymuno ynddyn nhw, stori i ddiddanu a digon o gyfleoedd i gwrdd ag eraill a chymdeithasu.

Cysylltwch â'r Swyddfa Docynnau ar 01874 611 622 os oes gennych unrhyw anghenion ychwanegol.

Pilates Based Back Care

Llu 10.30 - 11.30am & Mer 5.45 - 6.45pm

Cysylltwch â Katy Sinnadurai 01874 625 992/07807 851 970
neu katy.sinna@btinternet.com

Pilates Based Body Conditioning

Llu 11.45am - 12.45pm

Cysylltwch â Katy Sinnadurai 01874 625 992/07807 851 970
neu katy.sinna@btinternet.com

Brecon Town Concert Band

Llu 7pm - 9pm

Band Cyngerdd Tref Aberhonddu Croeso i chwaraewyr o bob gallu, o ddysgwyr ifanc i'r rheiny sy'n dychwelyd at gerddoriaeth ar ôl cael seibiant. Byddwn ni'n chwarae mewn cyngerddau dan do ac awyr agored drwy gydol y flwyddyn. Cysylltwch â Dave Jones ar 07779 390 954 neu e-bostiwrch conductor btcb@aol.com www.brecon-townband.com

u3a

Iau 10am - 4pm

www.u3asites.uk

Cysylltwch os gwelwch yn dda John Tyler johntyler9780@gmail.com

Cysylltwch â'n Swyddfa Docynnau am ragor o wybodaeth am y dosbarthiadau hyn: 01874 611 622

Tai Chi Buddies

Maw 10 - 11am

Please contact Andy Marshall andrewllynfi@hotmail.co.uk

Uplift Choir

Maw 12 - 1.30pm

£6/5 +75c Ffi Archebu.

Archebwch 50c yr wythnos drwy archebu

Dan arweiniad Tanya Walker: Arweinydd Côr Alive & Kicking a Hyfforddwr Llais Mynnwch saib o'ch bywyd neu waith amser cinio ddydd Mawrth a rhowch fesur iachusol o lesiant i chi eich hun drwy ganu!


I gael mwy o wybodaeth, cysylltwch â Tanya Walker: 7723 016837 / tanyawalkermusic@hotmail.com

Mid Wales Dance Academy

Theatr B! yw prif leoliad Academi Ddawns Canolbarth Cymru, ysgol ddawns fawr breifat â thros 300 o ddisgyblion, o 3 oed i oedolion.

Maen nhw hefyd yn cynnig ystod o ddosbarthiadau gan gynnwys bale a tap, hiphop a stryd, a chynigir hefyd arholiadau gyda'r Royal Academy Of Dance, a'r International Dance Teachers Association.

For further information please contact juniors@mwda.co.uk & seniors@mwda.co.uk



Arddangosfa o waith celf sy'n cael ei newid yn rheolaidd gan artistiaid a gweithwyr creadigol o'r ardal leol, ar gael i'w prynu.

Ewch i'n gwefan i ddysgu sut allwch chi arddangos eich gwaith gyda ni.

www.brycheiniog.co.uk

Bwyd & Diod

Mae Caffi Theatr Brycheiniog yn lle bywiog a chroesawgar, sy'n cynnig dewis hyfryd o fwyd a diod ar gyfer cynulleidfaoedd ein theatr, aelodau'r gymuned, twristiaid, ymwelwyr a digwyddiadau a archebwyd sydd ag anghenion arlwyio hefyd. Ffynnonellir ein cynhwysion o safon o'r ardal leol ble bo'n bosib, a'u paratoi yn ein hadeilad gan dîm anhygoel ein cegin.

Cadwch lygad ar ein cyfryngau cymdeithasol ac yn y llyfrynau yn y lleoliad am nosweithiau tapas a swper. Rydyn ni hefyd yn ehangu'r dewis o gyflenwyr lleol ar gyfer y bariau.



Brecwast

9-11.30am

Cinio

12 - 2.30pm
Mon- Sat

Bwydlen Gyda'r Hwyr

Yn cael ei gweini ar nosweithiau sioeau a digwyddiadau arbennig



Platiau Antipasti

Ar gael i'w harchebu ymlaen llaw

Arddangosfa

Brycheiniog Ddramatig: 2000 o flynyddoedd o Theatr yn Aberhonddu

Arddangosfa newydd sbon sy'n archwilio'r byd theatr a pherfformio yn Aberhonddu ar hyd yr oesau. Dysgwch am wreiddiau cerddorol a chwedleuol Celtaidd, theatrau ffyniannus Aberhonddu Sioraidd a hyrwyddwyd gan fenywod lleol a sut y ganwyd yr actores fyd-enwog Sarah Siddons yn y dref... Mae'r cyfan yma, gyda phypedau i'w llunio, cymeriadau i'w creu a llawer o gerddoriaeth a gynhyrchwyd yn lleol i wrando arni.



Lefel 2

O 1 Ebrill ymlaen

Addas ar gyfer pawb
0 - 100+ oed

Mae'r wybodaeth a geir yn y llawlyfr hwn yn gywir adeg mynd i'r wasg. Mae Theatr Brycheiniog yn cadw'r hawl i wneud newidiadau os oes angen. I weld telerau ac amodau llawn, edrychwch ar ein gwefan os gwelwch yn dda.

GWYBODAETH SWYDDFA DOCYNNAU

Mae ein Swyddfa Docynnau ar agor 9am-5pm bob dydd ac yn hwyrach ar noson sioe. Gellir archebu tocyntau ar lein hefyd ar www.brycheiniog.co.uk

AD-DALIADAU A CHYFNIEWID TOCYNNAU

Ni fydd modd rhoi'r holl arian yn ôl am docynnau oni bai bod y digwyddiad wedi cael ei ganslo. Hyd at 48 awr cyn sioe, gellir trosglwyddo tocyntau i sioe arall neu'u cyfnewid am daleb ar gyfrif, ar gost o £2 y tocynt.

FFI GWEINYDDOL

Rhaid talu £1.50 o dâl gweinyddol ar bob tocynt ar gyfer pob perfformiad a hyrwyddir gan Theatr Brycheiniog. Mae'r taliad hwn yn cyfrannu at dalu am ein costau manwerthu tocyntau a phrosesu taliadau'n ddiogel.

GOSTYNGIADAU

Ar gyfer rhai perfformiadau, mae'n bosib y gallwn gynnig pris gostyngol i bobl dan 16 oed, deiliad cerdyn Equity, aelodau HYNT, aelodau'r lluoedd arfog, pobl a gofrestrwyd yn anabl, yr henoed (60+) a myfyrwyr. Efallai y gofynnir i chi roi tystiolaeth o ran sut rydych chi'n ateb y meini prawf hyn.

HYNT

Mae Theatr Brycheiniog yn falch o gefnogi Cynllun HYNT. Gall aelodau'r cynllun ddod â gofawr am ddim i'r rhan fwyaf o berfformiadau (ac eithrio digwyddiadau llog). Cred HYNT yw bod celf a diwylliant ar gyfer pawb ac os oes gennych chi nam neu anghenion mynediad penodol, y dylai mynd i'w weld barhau i fod yn hawdd a hygyrch.

PERFFORMIADAU HAMDDENOL

Addasiadau i'r sioe a gynlluniwyd yn benodol i unrhyw un a allai gael y profiad theatrig arferol yn ormod, neu a fyddai'n buddio o gael amgylchedd mwy hamddenol, yw'r rhain.

Yn ystod perfformiad hamddenol bydd Golau'r Tŷ'n para ynghyn ac ni ddefnyddir golau strôb a bydd synau uchel yn cael eu dileu neu leihau. Dyw gwneud sŵn yn ystod perfformiad ddim yn cael ei wgu arno ac mae rhyddid i'r gynulleidfa fynd i mewn ac allan yn ôl y galw. Rydyn ni hefyd yn darparu lle i ymneilltuo yn yr oriel os oes angen amser i ffwrdd o'r prif ddigwyddiad ar aelodau'r gynulleidfa.

MAE THEATRE B YN CROESAWU TEULUEDD

Dyw theatrau ddim yn cael eu gweld yn draddodiadol fel mannau sy'n croesawu babis na phlant, ond yma yn Theatr Brycheiniog rydyn ni'n daer o blaid newid hynny. Mae ein rhaglen yn cynnwys sioeau i gynulleidfaoedd ifanc yn rheolaidd, ac rydyn ni'n gwneud ein gorau i sicrhau ein bod ni'n darparu'r lle delfrydol ble gall eich teulu deimlo'n gyfforddus a mwynhau theatr fyw. Rhestrir y sioeau hyn hefyd fel 'perfformiadau hamddenol', sy'n golygu ein bod ni nid yn unig yn 'llacio' rheolau arferol ein cynulleidfa, ond y gallwch chi 'ymllacio' a mwynhau'r perfformiad hefyd. Gall babis mewn breichiau dan 2 oed fynd am ddim.

PARCIO CEIR

Dyma brisiau talu am parcio ceir:

Hyd at 1 awr:	£1.20	Dros 4 awr:	£4
1-2 awr:	£2	5.30pm - 8am:	£1
2-4 awr:	£3.25	Campyrfans dros nos:	£12

Mae peiriant talu'r maes parcio'n derbyn arian parod neu gerdyn. Neu lawrlwythwch ap RingGo ar eich ffôn a'i ddefnyddio i dalu. Rhif ein maes parcio yw 9129.

Derbynnir cardiau yn ein Swyddfa Docynnau hefyd, ble gellir rhoi tocynt ar gyfer eich cerbyd. Ceir cysgod i feiciau y tu allan i'r lleoliad.

HYGYRCHEDD

- Lleoeidd i ddefnyddwyr cadair olwyn yn seddau'r llawr a'r llofft
- Mynediad ar y gwastad i bob ardal gy
- Lift i bob lefel
- Mynediad i doiledau ar bob llawr
- Croesewir cŵn mynediad
- Dolen sain bersonol/clustffonau
- Parcio ceir penodol

Mae pob deunydd a ddefnyddiwyd i greu'r llawlyfr hwn wedi'u cydbwyso o ran carbon. Mae'r inc a ddefnyddir yn dod o ffynhonnell lysiau ac mae'r papur yn llwyr ailgylchadwy.

SGANIWCH i ddysgu mwy



Amserlen Perfformiadau

Tynnwch fi a' inghadw!

Ionawr

Sad 10
7.30pm
Talon: The Best of the Eagles
Tudalen 4

Mer 14
6.45pm
Royal Ballet & Opera: La Traviata
Tudalen 4

Gwe 23
7pm
Westenders: Goldilocks & the Three Bears
Tudalen 5

Sad 24 - Sul 25
12pm & 5pm
Westenders: Goldilocks & the Three Bears
Tudalen 5

Maw 27
7pm
Westenders: Goldilocks & the Three Bears (BSL Performance)
Tudalen 5

Chwefror

Mar 28 - Gwe 30
7pm
Westenders: Goldilocks & the Three Bears
Tudalen 5

Sad 31
1pm & 6pm
Westenders: Goldilocks & the Three Bears
Tudalen 5

Llu 9
7pm
Brecknock YFC Drama Festival
Tudalen 6

Maw 10
7pm
Brecknock YFC Drama Festival
Tudalen 6

Mer 11
7pm
Brecknock YFC Drama Festival
Tudalen 6

Iau 12
7pm
Brecknock YFC Drama Festival
Tudalen 6

Marwrth

Gwe 13
7pm
Brecknock YFC Drama Festival
Tudalen 6

Sad 14
6.30pm
Brecknock YFC Drama Festival
Tudalen 6

Iau 19
7pm
National Theatre Live: Hamlet
Tudalen 7

Gwe 20
2pm
Daryl Carrington Out of the Box
Tudalen 7

Mer 25 - Gwe 27
7pm
Gwernnyfed High Scool Footloose
Tudalen 8

Maw 3
7.15pm
Royal Ballet & Opera: Giselle
Tudalen 8

Gwe 6
7.30pm
Banff Mountain Film Festival World Tour: Red Film Programme
Tudalen 9

Mer 11
7.00pm
Theatr Wildcats: Contrasting Worlds of Talent
Tudalen 9

Iau 12
7pm
National Theatre Live: The Audience
Tudalen 10

Gwe 13
7pm
Sir John Lloyd Lecture
Tudalen 8

Iau 19
8pm
Richard Chapman Dance: Amplify/ Mwyhau
Tudalen 10

Mer 25
7.30pm
Meet Fred
Tudalen 11

Ebrill

Iau 26
7.30pm
The Band of the Prince of Wales
Tudalen 11

Gwe 27
7.30pm
John Power The Cast, The La's & Me
Tudalen 12

Sad 28
7pm
Chucki. Comedy Club with Headliner Milton Jones
Tudalen 13

Maw 31
5.15pm
Royal Ballet & Opera: Siegfried
Tudalen 12

Sad 11
7.30pm
Lindisfarne
Tudalen 13

Iau 16
7.30pm
The Take That Experience
Tudalen 14

Sad 18
2pm
Susie Dent Word Perfect
Tudalen 15

Maw 21
6.45pm
Royal Ballet & Opera: The Magic Flute
Tudalen 15

 Cyngor Celfyddydau Cymru
Arts Council of Wales

ARIENNIR GAN
Y LOTERI
LOTTERY FUNDED



 Powys
Llywodraeth Powys
Powys County Council

 Powys

SGANIWCH
i ddsysgu mwy

